

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 14 Hydref, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: S. Jones (Ymgeisydd – Bro Morgannwg), P. Hill (Plaid â Diddordeb), S. McCarthy (Awdurdod Cyfrifol; Heddlu De Cymru), Swyddog Trwyddedu (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Cyfreithiol (Cyngor Bro Morgannwg) a Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Craffu (Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd M.J.G. Morgan yn cael ei benodi'n Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. CANIATÁU TRWYDDED SAFLE – PENTREF CANOLOESOL COSMESTON, HEOL LARNOG, PENARTH, CF64 5UY –

PENDERFYNWYD – BOD y cais yn cael ei ganiatáu gydag amodau diwygiedig sy'n gyson â'r atodlen weithredu mewn modd a ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Rhesymau dros y penderfyniad

Mae'r amodau hynny i gynnwys:

Amodau 2,3,5,6,7,8 fel yr amlinellwyd yn y cynrychiolaethau gan Heddlu De Cymru dyddiedig 16 Medi, 2022.

Bydd teledu cylch cyfyng yn gweithredu ar bob pwynt mynediad ac allan i'r eiddo gyda theledu cylch cyfyng yn y man gwerthu alcohol. Dylid cadw delweddau am o leiaf 31 diwrnod a'u cyflwyno i swyddog awdurdodedig o Heddlu De Cymru o fewn amser rhesymol.

Wrth ddod i'w benderfyniad heddiw yr oedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb a oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar ac wedi

ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â'r Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Mae gan yr Ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Rhaid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd gan yr Ymgeisydd unrhyw amheuaeth ynghylch ei hawliau cyfreithiol a/neu ei gyfrifoldebau dylai geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.